Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 28 MAWRTH 2024**

**AT:YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD **YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH** A GYNHELIR YN **YSTAFELL BWYLLGOR 1 (YSTAFELL BWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD) - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB,** AR **DYDD LLUN, 8FED EBRILL, 2024** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Julie Owens** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267224088** |
| **E-bost:** | **juowens@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL** | |
| **2.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 MAWRTH 2024** | 3 - 6 |
| **3.** | **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI** | |


WEDI YSTYRIED HOLL AMGYLCHIADAU'R ACHOS AC WEDI CYNNAL PRAWF BUDD Y CYHOEDD GALL YR AELOD O'R CABINET FARNU NAD YW'R EITEMAU CANLYNOL I'W GYHOEDDI AM EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINNIR YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, FEL Y'I NEWIDIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007.


| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **BENTHYCIAD CANOL TREF** | 7 - 18 |
| **5.** | **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - CRONFA DECHRAU BUSNES A THWF** | 19 – 38 |


*Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

# YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

## DYDD LLUN, 11 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd H.A.L. Evans

**Hefyd yn bresennol :**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
A. Ralph, Swyddog Datblygu Economaidd Busnes Cronfa Ffyniant Gyffredin - Grantiau
A. Spencer, Swyddog Datblygu Economaidd, Cronfa Ffyniant Gyffredin - Cronfa Datblygu Eiddo
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 1 (Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP - 2.00 - 2.39 yp**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 CHWEFROR 2024**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12 Chwefror, 2024 yn gofnod cywir.**

**3. TALIADAU HAMDDEN 2024-25**

Ystyriodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad ynghylch Taliadau Hamdden 2024-25 a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r taliadau arfaethedig a oedd yn ffurfio rhan o'r cynllun cynhyrchu incwm ar gyfer yr is-adran hamdden yn 2024-25. Roedd yr adroddiad yn cynnwys taliadau ar gyfer yr is-adrannau canlynol o fewn Gwasanaethau Hamdden a hefyd yn manylu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys grymoedd y farchnad, a oedd wedi dylanwadu ar lefel arfaethedig y taliadau:-

- Gwasanaethau Diwylliannol (Y Celfyddydau, Amgueddfeydd, Theatrau a'r Gwasanaeth Archifau)
- Lleoliadau Hamdden a Chwaraeon (Canolfannau Hamdden, pyllau nofio, cynnyrch ar-lein Actif a Thaliadau Chwaraeon Cymunedol Actif)
- Hamdden Awyr Agored (Parciau Gwledig, gan gynnwys Parc Arfordirol y Mileniwm, Safle Prosiect Denu Pentywyn; a'r Gwasanaeth Addysg Awyr Agored

**PENDERFYNWYD bod y fframwaith Taliadau Hamdden ar gyfer 2024-25 fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - GRANT YMCHWIL A DATBLYGU BUSNES**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cynnig i ddatblygu Grant Ymchwil a Datblygu newydd i'w ariannu drwy'r Angor Busnes o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Nodwyd y byddai cyfanswm o £250k ar gael yn y gyllideb a ddyrannwyd o dan y prosiect angori busnes a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod Cabinet fod tîm busnes y Gronfa Cychwyn Busnes a Thwf Busnes wedi nodi nifer o fusnesau a oedd yn ceisio cynnal gweithgareddau yn ymwneud â chamau cynnar iawn ymchwil a datblygu, astudiaethau hyfywedd, prototeipio ac ati, fodd bynnag, ni ellid darparu cymorth o dan y Gronfa gan na fyddai canlyniadau diogelu swyddi a/neu greu swyddi yn cael eu cyflawni o fewn y cyfnod cyllido. Yn unol â hynny, o ystyried natur hanfodol Ymchwil a Datblygu yn y camau datblygu ar gyfer y busnesau hynny, cynigiwyd bod grant ar gael i dalu costau gwariant penodol o ran Ymchwil a Datblygu.

Ystyriwyd y meini prawf cymhwysedd a'r costau arfaethedig, ynghyd â'r canlyniadau arfaethedig, y cynnig grant a'r opsiynau amgen, fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cyflwyno Grant Ymchwil a Datblygu newydd gwerth £250k fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Angor Busnes, i ddiwallu anghenion busnesau ac er mwyn cyflawni cyllideb ac allbynnau'r prosiect.**

5. **CRONFA GYLLID WEDI'I THARGEDU**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Y Gronfa Cyllid a Dargedir** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Canolfan Gymunedol yr Hen Ysgol, Llanybydder | £20,000.00 |
| Tetrim Teas | £20,000.00 |
| Neuadd Goffa Hendy-gwyn | £19,250.00 |
| Myddfai Trading Company Ltd | £3,788.67 |
| Neuadd y Pentref Newydd, Llanarthne | £15,360.00 |

6. **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr**

**adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 7. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - CRONFA YNNI ADNEWYDDADWY BUSNES

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 6 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnes a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i geisiadau prosiect a oedd wedi dod i law gan ddau fusnes a oedd yn gofyn am gymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes, a oedd yn galluogi busnesau i ymgymryd â phrosiectau gwella ynni adnewyddadwy gan arwain at arbedion effeithlonrwydd busnes a lleihau carbon.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiectau a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes fel y manylir yn yr adroddiad.**

## 8. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - CRONFA DECHRAU BUSNES A THWF

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 6 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeisydd. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnes a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ystyriaeth i gais prosiect a oedd wedi dod i law gan fusnes a oedd yn ceisio cymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Grant Cychwyn Busnes a Thyfu Busnes, a'i nod oedd helpu busnesau i ddechrau, cynnal, tyfu a chreu swyddi.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiect a gyflwynwyd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Grant Cychwyn Busnes a Thyfu Busnes fel y manylir yn yr adroddiad.**

________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Eitem Rhif 5

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol